

Ymgynghorydd cyllid

Mae Cymru Masnach Deg yn chwilio am ymgynghorydd cyllid sydd yn gallu defnyddio eu sgiliau i ddatblygu map ariannu, cynyddu incwm Cymru Masnach Deg Cymru drwy gronfeydd bach, a darparu nifer o geisiadau mwy am gyllid mewn cydweithrediad â thîm Cymru Masnach Deg.

Mae Cymru Masnach Deg yn gweithio i gefnogi, tyfu a hyrwyddo'r mudiad Masnach Deg yng Nghymru. Ein gweledigaeth yw creu byd cyfartal, drwy ddefnyddio ein gwerthoedd o gymorth, cydweithredu a grymuso. Dewch i ymuno â sefydliad cyfeillgar a Masnach Deg.

Mae Cymru Masnach Deg wedi'i sefydlu fel cwmni cyfyngedig drwy warant, gyda statws nid er elw. Rydym yn gweithio fel rhan o [bartneriaeth Hub Cymru Affrica \(HCA\)](#) ac rydym wedi ein lleoli yn y Deml Heddwch yng Nghaerdydd. Mae'r prosiect a'r swydd hon yn cael eu hariannu gan Gynllun Cam 3 Cronfa Gwydnwch Trydydd Sector Cymru, sydd yn cael ei rheoli a'i gweinyddu gan CGGC ar ran Llywodraeth Cymru.

Sut i ymgeisio

Anfonwch fynegiant o ddiddordeb byr a CV drwy e-bost i aileen@fairtradewales.org.uk erbyn 12 hanner dydd ar ddydd Mawrth, 19 Gorffennaf. Bydd un neu ddau baragraff yn dderbyniol ar gyfer y Mynegiant o Ddiddordeb.

Byddwn mewn cysylltiad pan fyddwn wedi edrych drwy'r e-byst o bobl sydd â diddordeb (21 Gorffennaf), ac yn gwahodd y rheini sydd ar y rhestr fer i gyflwyno cais byr (2 Awst) mewn ymateb i'n briff. Rydym wedi llunio briff ar gyfer yr ymgeiswyr hynny sydd ar y rhestr fer, a allai eich helpu i'n deall yn fwy fel sefydliad a'n hanghenion ariannu - pwy ydym ni, beth yw ein gwaith, pwy yw ein rhanddeiliaid a beth rydym eisiau ei wneud. Byddwn yn cynnig sgysiau anffurfiol ar-lein hefyd yn ystod yr wythnos yn dechrau 25 Gorffennaf i'r rheini sydd ar y rhestr fer, os ydynt yn dymuno trafod unrhyw agweddau ar y prosiect.

Manylion a chyllideb

Bydd yr ymgeisydd/ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithio'n agos gyda Phennaeth Cymru Masnach Deg. Mae'r gwaith hwn mewn tri cham. Mae croeso i chi wneud cais am un neu ddau gam, neu am bob un o'r camau. Ni allwn wario mwy na £9,600 ar gyfer y gyllideb ar gyfer y tri cham, ac rydym yn disgwyl i hyn fod tua 2-3 diwrnod o waith y mis am 8 mis.

Y misoedd hyn yw Medi 2022 - Ebrill 2023, gyda'r gwaith yn dechrau'n raddol ac yn mynd yn fwy penodol ar adeg y ceisiadau mwy, sydd yn cael eu cynnal rhwng mis Rhagfyr 2022 a mis Ebrill 2023, yn dibynnu ar y gofynion ymgeisio.

Pwrpas cyffredinol y prosiect

Mae ein strategaeth ar gyfer 2020-2024 yn rhestru ein huchelgeisiau y tu hwnt i'n gallu presennol ar gyfer pob un o'n nodau strategol. Prif bwrpas y gwaith hwn yw galluogi Cymru Masnach Deg i ddod yn fwy gwydn, drwy ehangu ein ffrydiau incwm gan ffynonellau cyllido a chyllidwyr. Bydd cael y gallu i wneud cais am gyllid yn ein galluogi i wireddu ein huchelgeisiau o ran cefnogi gweithredwyr, creu partneriaethau ac argymhell mwy o ymrwymadau Masnach Deg gan y Llywodraeth, a'u gwireddu.

Mae'r gwaith mewn tri cham:

1. Diweddarau ein cronfa ddata o gyllidwyr cymwys a chyrrff sy'n rhoi grantiau (gwella prosesau) (Med-Hyd)
2. Darganfod a chysylltu ag ystod o ffynonellau cyllido a chronfeydd bach ar gyfer symiau bach o gyllid anghyfyngedig (£500-£2k) (Hydion)
3. Ceisio cynyddu ein hincwm drwy gwblhau nifer o geisiadau am gyllid mwy (£10k-£50k), gyda chymorth Pennaeth Cymru Masnach Deg (Rhag 10-Ebr)

Cyfrifoldebau

- Datblygu a gweithredu map ariannu ar gyfer Cymru Masnach Deg, yn seiliedig ar feini prawf cymhwysedd a'n strategaeth ar gyfer 2020-2024, yn unol â deddfwriaeth diogelu data
- Cysylltu â chyllidwyr a nodwyd ar y map ar gyfer potiau bach o gyllid anghyfyngedig, a diweddarau'r map ariannu fel y bo'n briodol
- Cysylltu â Cymru Masnach Deg i ddod o hyd i nifer o gronfeydd mwy posibl sydd ar gael
- Gweithio gyda'n staff a'n Cyfarwyddwyr i helpu i ddatblygu syniadau prosiect
- Ysgrifennu o leiaf dau gais am gyllid mwy ar gyfer potiau o £10k-£50k, gyda chymorth Pennaeth Cymru Masnach Deg

Manyleb y person

Hanfodol	Dymunol
<ul style="list-style-type: none">- Profiad o ysgrifennu ceisiadau llwyddiannus (£10k - £50k)- Dealltwriaeth o Reoliadau Codi Arian ar gyfer cwmnïau sydd ddim yn gwneud elw	<ul style="list-style-type: none">- Yn gyfarwydd â dulliau ymgyrchu a chyllidwyr cyfiawnder cymdeithasol, er enghraifft, Joseph Rowntree Foundation a Sheila McKechnie Foundation.

<ul style="list-style-type: none">- Profiad o ddod o hyd i ffynhonellau cyllido a chronfeydd priodol	<ul style="list-style-type: none">- Gwybodaeth am Ddeddf yr Iaith Gymraeg a'i goblygiadau i'n cefnogwyr a'n rhanddeiliaid
--	---

